# Disgrifiad Swydd - Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Polisi ac Ymchwil** |
| **Band cyflog:** | **Uwch-gynghorydd** |
| **Ystod cyflog**:<br>**(pro rata)** | **£42,904 - £55,159**<br>Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnig ar bwynt isaf y band cyflog ar gyfer staff newydd. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Uwch-gynghorydd** |
| **Cyfeirnod:** | MBS-142-26 |
| **Swyddfa:** | **Mark Hooper AS a Sarah Rees AS** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. |
| **Math o benodiad:** | **Parhaol**<br>Fel Aelod o'r Senedd, rwyf yn dal swydd fel cynrychiolydd etholedig. Pan fydd fy nghyfnod fel Aelod o'r Senedd yn dod i ben, bydd y swydd hon yn dod i ben. |
| **Lleoliad:** | **Swyddfa'r Etholaeth (Y Barri), y Senedd a Gartref**<br>Efallai y bydd gofyniad i ddeiliad y rôl deithio ar gyfer y gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn (hil, rhyw, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran). |
| Sylwer y gwneir y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Ynglŷn â'r rôl

| Ymchwil a pholisi |
|---|
| Mae deiliaid swyddi Polisi ac Ymchwil yn gyfrifol am wneud gwaith ymchwil neu ddadansoddi ar fater penodol, neu amrywiaeth o faterion, er mwyn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau neu'r Grwpiau. Ar brydiau, bydd angen darparu argymhellion neu opsiynau pragmatig sy'n canolbwyntio ar weithredu ar gyfer ymdrin â'r mater dan sylw. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd.<br>**Mae'r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Nodi canlyniadau ac effeithiau posibl drwy graffu ar waith Llywodraeth Cymru a chyrff eraill.<br>• Dadansoddi problemau, cynhyrchu opsiynau a gwerthuso.<br>• Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a llunio polisi.<br>• Gweithio mewn partneriaeth (yn fewnol ac yn allanol) i wneud gwaith ymchwil; dylanwadu ar ddogfennau polisi, strategaethau ac arferion gwaith; ac amlinellu goblygiadau dylanwadau allanol a thueddiadau fel datblygiadau mewn deddfwrfeydd eraill. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd Uwch-gynghorydd Polisi ac Ymchwil sy'n gweithio i Aelod o'r Senedd yn arbenigwr ym maes polisi ac ymchwil, a bydd yn chwarae rhan strategol wrth lunio safbwyntiau polisi, wrth arwain gwaith deddfwriaethol, ac wrth ddarparu cyngor gwleidyddol lefel uchel. Bydd yn arwain ym maes ymchwil, yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu polisïau, ac yn gweithredu fel cynghorydd allweddol i'r Aelod ar faterion cymhleth. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Meddwl strategol ac ymwybyddiaeth wleidyddol, gyda dealltwriaeth o bolisïau’r blaid a phryderon etholaethau.<br>• Gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylanwadu arnynt, o swyddogion y llywodraeth i grwpiau eiriolaeth.<br>• Barn a meddwl clir o ran dyrannu adnoddau ac ymateb i alwadau sy'n cystadlu â'i gilydd, a'r gallu i wneud penderfyniadau doeth mewn amgylchedd gwleidyddol sensitif sy'n newid yn gyflym.<br>• Sgiliau dadansoddi ac ymchwil ar lefel uchel i ddeall a beirniadu polisi cymhleth a deunydd deddfwriaethol.<br>• Sgiliau drafftio a chyflwyno rhagorol i gyflwyno materion cymhleth ac opsiynau polisi yn glir, yn gryno ac yn gywir, ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Profiad o weithio'n effeithiol mewn amgylchedd swyddfa, gan gynnwys datrys materion cymhleth gyda synnwyr cyffredin a doethineb, a hynny mewn amgylchedd gwleidyddol yn ddelfrydol.<br>• Profiad o fod mewn rôl gymharol yn ymdrin â gohebiaeth gymhleth, dyddiaduron a digwyddiadau a rhedeg swyddfa brysur.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm bach. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Profiad o weithio'n effeithiol mewn amgylchedd gwleidyddol, gan gynnwys datrys materion cymhleth mewn ffordd ddoeth a diplomyddol.<br>• Dealltwriaeth o waith y Senedd ac Aelodau o'r Senedd.<br>• Dealltwriaeth lawn o'r gyfraith a’r fframweithiau rheoleiddio y mae’r Aelodau a’r Grwpiau yn gweithredu o’u mewn. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau’r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) yn ogystal â fframweithiau ehangach a chyffredinol. Gallu rhoi cyngor gwybodus i’r Aelodau a chydweithwyr.<br>• Arbenigedd sylweddol a gafwyd drwy gymhwyster proffesiynol neu academaidd neu brofiad cyfatebol, y gellir ei gymhwyso ym mhob sefyllfa sy’n berthnasol i bolisi ac ymchwil.<br>• Gwybodaeth arbenigol am bolisi'r Llywodraeth, deddfwriaeth a gweithdrefnau'r Senedd.<br>• Cyfrifoldeb am reoli tîm aml-ddisgybledig o staff sydd â hanes profedig o |

sicrhau canlyniadau.

- Gwybodaeth arbenigol mewn maes perthnasol, a phrofiad o ddatblygu polisïau a strategaethau o fewn y maes hwn.
- Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.
- Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.
- Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

**Meini prawf dymunol**

- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.
- Arddel amcanion a gwerthoedd y Blaid.
- Profiad blaenorol o weithio i Aelod o'r Senedd / Aelod Seneddol / Aelod o Senedd Ewrop.
- Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith.

**Cymwysterau**

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol, neu brofiad addas arall.

**Sgiliau iaith**

- Dymunol: Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

# Prif ddyletswyddau

**Ymchwil lefel uchel a datblygu polisi**

- Cynnal ymchwil fanwl ar ddeddfwriaeth, polisïau'r llywodraeth a thueddiadau gwleidyddol.
- Drafftio adroddiadau manwl, papurau polisi, a dogfennau briffio i gefnogi gwaith yr Aelod.
- Dadansoddi materion etholaethol, cynigion y llywodraeth ac adroddiadau pwyllgorau, cynghori ar strategaeth wleidyddol.
- Nodi heriau a chyfleoedd polisi sy'n dod i'r amlwg, i lunio ymatebion yr Aelodau.
- Goruchwylio staff, sicrhau gweithrediadau swyddfa llyfn a dirprwyo cyfrifoldebau'n effeithiol. Rheoli cydweithwyr yn uniongyrchol, gan fod yn rheolwr llinell ar ran yr Aelod. Gall hyn gynnwys recriwtio, gwerthuso a nodi anghenion hyfforddi neu ddatblygu.
- Yn gyfrifol am gynghori neu hyfforddi eraill ar ystod o faterion sy'n safonol ar gyfer y maes gwaith e.e. iechyd a diogelwch, rheoli cofnodion.
- Sicrhau llywodraethiant da, cydymffurfio â rheolau seneddol, codau ymddygiad, a chanllawiau moesegol.
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng yr Aelod a Chomisiwn y Senedd.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli cofnodion, gan sicrhau llwybrau archwilio clir, a bod data yn cael eu prosesu a'u storio yn unol â deddfwriaeth / rheoliadau.
- Atebolrwydd uniongyrchol am gynllunio a monitro llwyth gwaith, a blaenoriaethu dyraniadau ar gyfer meysydd gweithgarwch penodol e.e. cymorthfeydd yr Aelodau, gwaith achos neu ddigwyddiadau ymgysylltu, cydgysylltu a blaenoriaethu gwaith y tîm.
- Rheoli cyllidebau yn effeithiol, gan gynnwys monitro gwariant a rhagweld gwariant yn y dyfodol.

**Strategaeth ddeddfwriaethol a seneddol**

- Drafftio cwestiynau, gwelliannau, areithiau a chynigion yn y Senedd.
- Cefnogi'r Aelod mewn dadleuon, pwyllgorau a chyfarfodydd gyda Gweinidogion.
- Monitro deddfwriaeth, papurau ac ymgynghoriadau polisi, gan sicrhau bod yr Aelod wedi'i baratoi'n dda.
- Darparu briffiau ar gyfer grwpiau trawsbleidiol, pwyllgorau polisi ac ymchwiliadau swyddogol.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylanwadu arnynt**

- Datblygu perthynas â melinau trafod, adrannau'r Llywodraeth, elusennau a grwpiau eiriolaeth. Gweithio gyda gwahanol ddeddfwrfeydd yn y DU.
- Cynrychioli'r Aelod mewn cyfarfodydd lefel uchel, fforymau polisi a digwyddiadau yn yr etholaeth.
- Cydgysylltu ymgyrchoedd, ymyriadau'r Senedd ac ymdrechion o ran materion cyhoeddus ar faterion allweddol.
- Drafftio ymatebion i ohebiaeth sy'n ymwneud â pholisi gan etholwyr, newyddiadurwyr a lobïwyr.

**Cyfryngau a chyfathrebu**

- Drafftio darnau barn, datganiadau i'r wasg a datganiadau polisi ar gyfer y cyfryngau ac ar gyfer gweithgarwch allgymorth cyhoeddus.
- Cefnogi strategaeth cyfryngau cymdeithasol drwy gynghori ar negeseuon polisi a phwyntiau trafod allweddol.
- Paratoi’r Aelod ar gyfer cyfweliadau gyda’r cyfryngau, ymddangosiadau cyhoeddus a dadleuon.

**Arweinyddiaeth a strategaeth o ran y swyddfa**

- Goruchwylio gwaith staff lefel is, er mwyn sicrhau gwaith cyson sydd o ansawdd da.
- Llunio agenda polisi hirdymor a blaenoriaethau strategol yr Aelod.
- Sicrhau bod yr holl allbynnau polisi yn cyd-fynd â nodau gwleidyddol y blaid ac anghenion yr etholaeth.
- Gwneud penderfyniadau pan nad oes fawr ddim cyngor, canllawiau na chynseiliau ar gael, neu pan nad oes cyngor, canllawiau na chynseiliau o gwbl ar gael, yn unol â dymuniadau Aelodau.
- Bod yn atebol am gyflawni gwaith o ansawdd ar amser ac o fewn cyllideb, yn uniongyrchol a thrwy eraill, drwy wella perfformiad y tîm.

**Rhwymedigaethau yn y gweithle**

**Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**

- Cefnogi a chynghori’r Aelod er mwyn cydymffurfio â’u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Iechyd, diogelwch a llesiant:**

- Cefnogi a chynghori’r Aelod yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Diogelu:**

| |
|---|
| • Cefnogi a chynghori'r Aelod o ran cydymffurfio â'u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol. |
| **Materion eraill** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).<br>• Gwneud penderfyniadau pan nad oes fawr ddim cyngor, canllawiau na chynseiliau ar gael, neu pan nad oes cyngor, canllawiau na chynseiliau o gwbl ar gael, yn unol â dymuniadau Aelodau.<br>• Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod. |